

Cymunedau Creadigol AHRC

Papur
Cythrudd
Polisi Datganoli

*Perthyn a
Chadernid
Cymunedol*



Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfres o bedwar Papur Cythrudd ar Bolisi a gynhyrchwyd gan raglen [Cymunedau Creadigol AHRC](#).

Mae'n cael ei lywio gan ein [Labordai Polisi](#) – cyfres o siopau polisi sy'n cael eu hwyluso'n greadigol gyda llywodraethau, llunwyr polisiâu, cyfranogwyr traws-sector, cymunedau a phobl ifanc a gynhaliwyd ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'r Awdurdodau â Meiri yn Lloegr.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno atebion polisi wedi'u creu ar y cyd â chyfranogwyr o'n [Lab Polisi Gogledd Iwerddon](#) yn Belfast.

Mae ei awgrymiadau ar gyfer atebion yn canolbwyntio ar ffyrdd y gall [Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon](#) ddefnyddio eu pwerau a'u cyllidebau diwylliant datganoledig i ddatgloi arloesedd cynhwysol, i roi'r un cyfle i gael mynediad at ddiwylliant ac ymchwil ac i wella ymdeimlad o berthyn a chadernid cymunedol.

Nod yr argymhellion canlynol yw helpu i gyflawni'r [Rhaglen Lywodraethu](#) yng Ngogledd Iwerddon a chyflwyno cynigion gweithredol ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yng [Ngogledd Iwerddon](#), Cyrff Hyd Braich a rhanddeiliaid traws-sector.



Cenhadaeth Polisi: Perthyn a Chadernid Cymunedol

Perthyn a Chadernid Cymunedol

Cadernid Cymdeithasol | Hunaniaeth Ddinesig | **Cydweithredu**

Ymgysylltu a Chyfranogiad | **Capasiti Cymunedol**

Cyfoethogi'r Gymuned | **Balchder mewn Lle** | **Adeiladu Cymuned**

Cysylltu Cymunedau | **Cyfalaf Cymdeithasol**

Cyfleoedd

Cysoni | **Cysylltiad** | **Herio Pŵer** | **Economi Greadigol** | **Naws am Le**

Hanes | **Cyfranogiad Cymunedol** | **Bod â Gwreiddiau** | **Cadernid**

Amgylchedd Cynhwysol | **Dysgu Trwy Greadigrwydd** | **Chwalu Rhwystrau**

Rhwydweithiau Newydd | **Diwylliant Dewis Eich Hun** | **Hunaniaeth**

Traddodiadau Diwylliannol | **Celf Annisgwyl** | **Annog Gweithredu**

Dull sy'n Pontio'r Cenedlaethau | **Croesawu'r Newydd** | **Gwthio Ffiniau**

Heriau

Mynediad i Gefn Gwlad | **Rhagdybiaethau** | **Diffinio Celf a Diwylliant**

Anghydraddoldeb Strwythurol | **Rhwystrau Ariannol** | **Diffyg Amrywiaeth**

"Gwerth" tybiedig o ran Diwylliant | **Talu Ymarferwyr Creadigol**

Cymunedau sydd ar y cyrion

Cyd-destun Polisi: Perthyn a Chadernid Cymunedol

Ym mis Chwefror 2025, cytunodd [Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon](#) ar [Raglen Lywodraethu 2024-2027](#). Mae'n amlinellu set o flaenoriaethau sy'n ceisio sicrhau bod pawb yng Ngogledd Iwerddon yn cael y cyfleoedd gorau posibl ac yn galluogi pobl i fyw gydag urddas mewn cymunedau diogel. Mae'r rhaglen yn cwmpasu amrywiaeth o ymrwymadau: o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus sy'n cryfhau cymunedau, i greu cyfleoedd i fusnesau, entrepreneuriaid, cymunedau, ac arloeswyr a gwella seilwaith sy'n cysylltu cymunedau, yn hyrwyddo twf economaidd cynhwysol ac yn cefnogi mwy o effeithlonrwydd ynni a fforddiadwyedd. Ei thair cenhadaeth graidd yw Pobl, y Blaned a Ffyniant, gydag ymrwymiad trawsbynciol i Heddwch.

Drwy strategaethau cynhwysiant cymdeithasol, nod [People Mission](#) yw galluogi pawb yng Ngogledd Iwerddon i fyw bywyd hir, iach a hapus, mewn cymdeithas deg a chynhwysol lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl – a lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu. Ynghyd â chefnogaeth barhaus i'r rhaglen [PEACE PLUS](#) a [Safer Communities](#), mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi ymrwymo i adnewyddu [Rhaglen Good Relations](#), [Communities in Transition](#), [Together: Building a United Community](#), [Urban Villages](#), a [Tackling Paramilitarism, Criminality and Organised Crime](#) a chyflwyno dull strategol gyda [chydraddoldeb hiliol](#).

Mae Gweinidog Cymunedau Gogledd Iwerddon wedi dadlau bod [treftadaeth a'r celfyddydau'n cyfrannu at ansawdd bywyd](#). Maent yn gonglfeini hanfodol ar gyfer cymunedau sy'n creu lleoedd ac yn creu heddwch ac maent yn gweithredu fel ysgogwyr allweddol ar gyfer meithrin ymdeimlad o berthyn, cadernid cymunedol a hunaniaeth ddinesig. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi [rhaglen Treftadaeth, Diwylliant a Chreadigrwydd](#) i gyflwyno casgliad cynhwysfawr o bolisiau sy'n ymwneud â diwylliant yng Ngogledd Iwerddon. Bydd hyn yn mynd i'r afael â chamau gweithredu i warchod, diogelu a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol ac i annog, cefnogi a datblygu'r chwilfrydedd, yr



ymgysylltiad gweithredol a'r creadigrwydd y mae'n helpu i'w hysbrydoli. Mae'r rhaglen yn adeiladu ar waith cychwynnol [Tasglu Diwylliant, y Celfyddydau a Threftadaeth](#) Gogledd Iwerddon ac yn ehangu ei ffocws i gynnwys polisiau ar lyfrgelloedd cyhoeddus ac amgueddfeydd drwy fodel cynllunio camau gweithredu newydd.

Mae [Strategaeth Adeiladu Cymunedau Cynhwysol 2020-2025](#) Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon yn nodi gweledigaeth o "weithio gyda'n gilydd dros gymdeithas deg a chynhwysol drwy drawsnewid y gefnogaeth i bobl, cymunedau a lleoedd i wella bywydau a chyflawni newid rhwng cenedlaethau". Mae gan y strategaeth amcanion craidd Cefnogi Pobl, Adeiladu Cymunedau, a Llundio Lleoedd – gyda themâu trawsbynciol ar fesurau Gwrth-dlodi, Lles a Chynhwysiant, Cynaliadwyedd a Thwff Cynhwysol, a Hyblygrwydd ac Arloesedd. Mae cynnwys pobl a chymunedau yn ganolog i'r strategaeth, gydag egwyddorion cyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio wedi'u gwreiddio o'r cychwyn.



Mae'r Adran Cymunedau hefyd yn datblygu [Strategaeth Iaith, Treftadaeth a Diwylliant Scoteg Ulster a Strategaeth yr Iaith Wyddeleg](#) sy'n gosod nodau hirdymor ar gyfer ieithoedd Gogledd Iwerddon dros y ddau ddegawd nesaf. Mae paneli arbenigol wedi llunio adroddiadau argymhellion ar yr hyn y dylid ei gynnwys ym mhob strategaeth iaith. Bydd Grwpiau Cyd-ddylunio yn ystyried yr argymhellion hyn wrth ddatblygu'r strategaethau drafft ac yn hwyluso grwpiau ffocws i geisio eu barn. Bydd y Gweithgor Trawsadrannol yn ystyried yr argymhellion at ddibenion datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob strategaeth ddrafft.

Mae [Cynllun Strategol 10 mlynedd](#) Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Ngogledd Iwerddon dros y cyfnod 2024-34. Mae ganddo weledigaeth o "gymdeithas lle gall pawb gael profiad o sector celfyddydau ffyniannus sy'n cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n hanfodol i greadigrwydd, lles a ffyniant cymdeithasol ac economaidd". Mae gan y strategaeth ganlyniadau sy'n ymwneud â pherthyn a chadernid cymunedol, gan gynnwys bod "mwy o bobl o bob cefndir yn gallu mwynhau profiadau celfyddydol" a bod mynediad at brofiadau celfyddydol yn chwarae rhan hanfodol mewn meithrin creadigrwydd, datblygiad personol, a dod â chymunedau at ei gilydd. Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn gweld y celfyddydau fel hawl sylfaenol ac mae'n ymrwmo i chwalu rhwystrau i sicrhau bod sector celfyddydau Gogledd Iwerddon yn gynhwysol ac yn adlewyrchu ei gymdeithas yn llawn.

Mae'r diwydiannau creadigol yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd Iwerddon ac maent werth [£1.2bn o werth ychwanegol gros](#). Gan ymateb i anghenion y diwydiant, mae [Future Screens Northern Ireland](#) – un o [Glystyrau Diwydiannau Creadigol](#) yr AHRC – yn darparu sgiliau technegol, cyfleoedd a thwf arbenigol ar draws meysydd ffilm a darlledu, animeiddio, gemau a thechnolegau ymgolli. Mae'n galluogi [diwydiant ac ymchwilwyr i gydweithio](#) i ddatblygu cynhyrchion a phrofiadau newydd, gan ddarparu swyddi newydd a rhoi hwb i'r economi leol. Mae Future Screens NI yn gweithio gyda dau sefydliad addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon – Prifysgol Ulster a Phrifysgol Queens, Belfast – yn ogystal â phartneriaid diwydiannol allweddol gan gynnwys NI Screen, BBC, Cyngor Dinas Belfast, Harbwr Belfast, Causeway Enterprise Agency, Digital Catapult, Catalyst Inc., RTE, Games NI, Kainos, Invest NI, Techstart NI, Matrix a Tourism NI. Mae'r clwstwr wedi datblygu model gweithio ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Ngogledd Iwerddon sy'n canolbwyntio ar gyfranogiad, twf diwylliannol ac economaidd ac adfywio cymdeithasol ac economaidd.

Nod [menter Shared Island](#) Llywodraeth Iwerddon yw harneisio potensial llawn Cytundeb Gwener y Groglith i wella cydweithrediad, cysylltiad a chyd-ddealltwriaeth ar yr ynys. Mae'n ymgysylltu â phob cymuned a thraddodiad i greu consensws ynghylch dyfodol a rennir, gan weithio gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â heriau strategol. Cafodd Cronfa Shared Island ei chyhoeddi yng Nghyllideb 2021, gyda dros €500m o gyllid cyfalaf ar gael rhwng 2021 a 2025 i'w fuddsoddi mewn prosiectau cydweithredol yn y Gogledd/De.

Yn 2023, buddsoddwyd €7.4m o'r Gronfa Shared Island mewn [pum prosiect buddsoddi newydd celfyddydol ynys gyfan](#). Nod elfen Shared Island y rhaglen Cymunedau Creadigol [Creative Communities on a Shared Island](#) yw gwella cydweithrediad, cysylltiad a chyd-ddealltwriaeth ar draws ynys Iwerddon ac ymgysylltu â'r holl gymunedau a thraddodiadau i greu consensws o amgylch dyfodol sy'n cael ei rannu. Mae'n ceisio adeiladu ar brofiad ac arbenigedd uchelgeisiau strategol presennol awdurdodau lleol rhwng y Gogledd-De a'r Dwyrain-Gorllewin (Iwerddon-Prydain) a datblygu rhwydwaith cydweithredol ar draws ynys Iwerddon.

Nododd [Lab Polisi Gogledd Iwerddon Cymunedau Creadigol yr AHRC](#) 2024 gyfres o awgrymiadau ar gyfer atebion polisi wedi'u cyd-greu, ar gyfer mynd i'r afael â chyfleoedd sy'n ymwneud â pherthyn, cadernid cymunedol a chadernid cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.



Cyd-destun Datganoli: Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae rhai materion yn dal i gael eu llywodraethu gan Lywodraeth y DU ac mae'r [Cerrig Milltir ar gyfer Llywodraeth dan arweiniad Cenhadaeth](#) yn ganolog i hyn. Cynrychiolir Gogledd Iwerddon yn Senedd y DU yn San Steffan gan ddeunaw o [ASau Gogledd Iwerddon](#). Mae gan Gogledd Iwerddon hefyd ei llywodraeth ddatganoledig ei hun gyda naw deg [Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol](#) (MLAs). Mae pump o'r Aelodau hyn wedi'u hethol i bob un o'r deunaw etholaeth yng Ngogledd Iwerddon.

Mae gan [Weithrediaeth Gogledd Iwerddon bwerau deddfwriaethol](#) llawn dros amrywiaeth o feysydd polisi sydd wedi'u datganoli o San Steffan. Mae'r rhain yn cynnwys diwylliant, cymunedau, menter, masnach a buddsoddi, amaethyddiaeth a datblygu gwledig, addysg, iechyd, plismona a chyfiawnder, yr amgylchedd a datblygu rhanbarthol.

Mae llawer o ffactorau economaidd-gymdeithasol a ffactorau sy'n seiliedig ar le yn pennu ein profiadau o berthyn a hunaniaeth ddinesig. Gall llunio polisiâu datganoledig chwarae rhan allweddol o ran datgloi potensial y celfyddydau, diwylliant a'r diwydiannau creadigol i fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau sy'n gysylltiedig â pherthyn a chadernid cymunedol yng Ngogledd Iwerddon.



Awgrymiadau ar gyfer Datrysiaid Polisi

* Modelau Cyllid Cyfranogol ar gyfer Diwylliant

Gwneud penderfyniadau traws-sector, sy'n cael eu harwain gan y gymuned, ar wariant a pholisi diwylliannol datganoledig i wneud blaenoriaethau a pharmedrau yn fwy cynrychioladol

► Y prif bwynt i'w gofio

Mae rhwystrau sylweddol i ymgysylltu cymunedol â diwylliant yng Ngogledd Iwerddon ac wrth lunio polisiâu diwylliannol. Mae llawer o ymarferwyr creadigol hefyd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu heithrio o brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch eu sector.

Mae cyfranogiad ymarferwyr cymunedol a chreadigol yn ddiffygiol yn y model presennol o gyllido diwylliant gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a sefydliadau cyllido diwylliant. Mae hyn yn achosi anghydraddoldeb, yn creu cwestiynau dadleuol am werth diwylliant ac yn chwalu amrywiaeth o ran llais a phrofiad.

Byddai arbrofi gyda modelau cyllido cyfranogol traws-sector newydd sy'n cael eu harwain gan y gymuned yn galluogi prosesau cyllido i fod yn fwy tryloyw ac yn fwy perthnasol i ddinasyddion. Byddai treialu model newydd yn rhoi llais i gymunedau mewn dyrannu cyllid, yn galluogi proses fwy cydgynghorol ar gyfer diwylliant cyllido ac yn creu portffolio sy'n seiliedig ar le ar gyfer darparu diwylliant.

Drwy ddemocrateiddio penderfyniadau cyllido, gallai'r model hwn herio canfyddiadau o beth yw cyfalaf diwylliannol, rhoi gwell gwybodaeth i feysydd twf a chyfleoedd ar gyfer diwylliant a chefnogi cysoni yng Ngogledd Iwerddon. Byddai darparu adnoddau a gwerthfawrogi cyfranogiad ymarferwyr creadigol ar lawr gwlad yn y broses newydd hon yn creu perthnasoedd mwy teg a chadarn rhwng y sector creadigol a diwylliant cymunedol.

Gallai Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon dreialu'r dull hwn, gan weithio ochr yn ochr ag ymarferwyr creadigol lleol i nodi blaenoriaethau cyllido mewn lleoliad peilot. Byddai hyn yn creu tirwedd ariannu diwylliant fwy agored lle mae'r penderfyniadau'n dal i gyd-fynd â blaenoriaethau Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.



* Arsyllfa Data Diwylliant Gogledd Iwerddon

Buddsoddi mewn sylfaen dystiolaeth polisi diwylliannol mynediad agored newydd er mwyn llywio gwerth diwylliant yn well


► Y prif bwynt i'w gofio

Byddai arsyllfa data Gogledd Iwerddon ar gyfer diwylliant yn rhoi sylfaen dystiolaeth newydd hanfodol i lunwyr polisi datganoledig o Ogledd Iwerddon ac ar gyfer Gogledd Iwerddon, a fyddai'n llywio penderfyniadau datganoledig yn well.

Mae tystiolaeth yn bodoli mewn gwahanol adrannau o'r llywodraeth a Chyrff Hyd Braich ar gyfer diwylliant a'i effaith ar sgiliau, iechyd a lles, hunaniaeth ddinesig a chadernid cymunedol. Byddai dod â data cenedlaethol at ei gilydd a'i gysylltu â data sector diwylliant byw drwy arsyllfa data peilot yn creu offeryn amser real cynaliadwy ar gyfer llywio'r gwaith o lunio polisiâu diwylliannol datganoledig.

Gallai'r arsyllfa data dderbyn, delweddu a dadansoddi data gan amrywiaeth o randdeiliaid y sector diwylliannol gan gynnwys prifysgolion, sefydliadau cymunedol, cyrff twristiaeth, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, National Museums NI, a'r Cyngor Defnyddwyr.

Byddai'n ddefnyddiol datblygu'r arsyllfa data ar y cyd rhwng yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Adran Cymunedau a Chwaraeon a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon a [Gwasanaethau Arloesi ac Ymgynghori'r](#) Adran Gyllid, gan ddefnyddio dulliau cydgynllunio i ymgysylltu ag amrywiaeth o leoliadau a sefydliadau yn y sector diwylliannol i elwa ar ei swyddogaethau. Gan weithio gyda'r Adran Cymunedau ar y [Rhaglen Treftadaeth, Diwylliant a Chreadigrwydd](#) newydd, gallai'r arsyllfa data ysgogi'r broses o nodi'r hyn sy'n gweithio a'r bylchau mewn gwybodaeth.



* Rhwydwaith y Cynulliad Diwylliannol

Rhwydwaith Cynulliad Polisi'r Bobl ar gyfer cyd-ddylunio polisi diwylliannol (yn wirioneddol)

► Y prif bwynt i'w gofio

Mae llunio polisi diwylliannol yn system o'r brig i lawr, sydd wedi cydnabod rhwystrau i gyfranogiad a chynhwysiant. Nid yw'r mecanweithiau bob amser yn bodoli ar gyfer cymunedau traws-sector neu ymarferwyr creadigol i gyfrannu at benderfyniadau polisi diwylliannol.

Byddai gwyrddio'r system bresennol a datblygu polisi diwylliant o'r gwaelod i fyny, gan ddefnyddio cyd-ddylunio i gynnwys cymunedau lleol, yn sicrhau ymgysylltu tymor hir â'r gymuned wrth lunio polisiau diwylliannol. Gellir dod o hyd i atebion cryf o ddulliau cyfranogol, drwy gydnabod bod arloesedd yn dod o'r tu allan i'r system.

Gallai Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon fuddsoddi mewn hyfforddiant ar draws y sector i gyd-ddylunio, adeiladu strwythurau atebolrwydd newydd ynghylch sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a hwyluso manau ffisegol i gynnal cynulliadau mewn lleoliadau lleol, mewn partneriaeth â chynghorau lleol. Byddai hyn yn galluogi cymunedau i ddod at ei gilydd i gyd-ddylunio polisi diwylliannol fel rhan o Rhwydwaith Cynulliad Diwylliannol Gogledd Iwerddon.

Byddai hyn yn cynyddu lleisiau amrywiol ac yn creu newid sylweddol o ran ymgysylltu â'r gymuned yn y tymor hir wrth lunio polisiau diwylliannol, hyrwyddo cymodi, meithrin cysylltiadau da, ac annog cadernid cymunedol. Yna, gallai argymhellion o'r ymgysylltiad hwn â dinasgyddion gael eu bwydo'n ôl a'u gweithredu gan Gyrff Hyd Braich yn ogystal â llywodraethau datganoledig a'r DU.



* Ymgorffori Ymarfer Creadigol mewn Addysg

Blaenoriaethu ymarfer creadigol wrth lunio polisïau diwylliannol ac mewn addysg fel nodwedd unigryw o agwedd Gogledd Iwerddon at berthyn a chadernid cymunedol

► Y prif bwynt i'w gofio

Dylid rhoi blaenoriaeth i arferion creadigol mewn addysg gynradd ac uwchradd a rôl ymarfer creadigol yn y sector diwylliant a'r diwydiannau creadigol wrth lunio polisïau datganoledig.

Gallai hyn gael ei arwain gan yr Adran Addysg, gan gydweithio â'r Awdurdod Addysg a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, i ehangu a chynyddu cyrhaeddiad ac effaith [Rhaglen Ysgolion Creadigol](#) Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon.

Gellid profi cynigion ar gyfer arferion creadigol mewn addysg gyda grwpiau o bobl ifanc, fel lleisiau creadigrwydd yn y dyfodol. Dylai cymunedau, sy'n rhan annatod o ddiwylliant a threftadaeth, gael eu grymuso hefyd – gan fod ymgysylltu diwylliannol mewn perygl o gael ei golli oherwydd heriau sy'n rhan annatod o systemau addysg a rhwystrau eraill.

Gallai canoli arferion creadigol hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant fel rhai sy'n berthnasol i bawb, gan gynnwys drwy fesur llwyddiant, drwy ddarparu cyllid digonol, lleihau rhwystrau i gyfranogi, codi ymwybyddiaeth, creu cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig, creu lleoedd a mannau diwylliannol hygrych, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a mynd i'r afael â'r diffyg posibl o ran amrywiaeth cynulleidfaoedd.





**Northumbria
University**
NEWCASTLE



**Arts and
Humanities
Research Council**

Cymunedau Creadigol AHRC

Mae [Cymunedau Creadigol](#) yn rhaglen ymchwil bwysig a ariennir gan [AHRC](#) ac a gynhelir gan [Brifysgol Northumbria](#), sy'n edrych ar sut gall diwylliant sydd wedi'i greu ar y cyd wella ymdeimlad o berthyn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, cyflawni datganoli, a chwalu rhwystrau i gyfleoedd gyda chymunedau mewn lleoliadau datganoledig ar draws pedair gwlad y DU.

Awduron: Helen Apsey, Arweinydd Polisi | E-bost: helen.apsey@northumbria.ac.uk
Yr Athro Katy Shaw, Cyfarwyddwr | E-bost: katy3.shaw@northumbria.ac.uk

Mae Cymunedau Creadigol yn cael ei gefnogi gan fwrdd rhaglen yn AHRC a Bwrdd Cynghori allanol. Rydym yn ddiolchgar am eu haelioni o ran amser ac am eu hadborth parhaus.

Mae'r tîm yn diolch i'r amrywiaeth eang o gyfranogwyr traws-sector yn ein Lab Polisi Gogledd Iwerddon, a wnaeth amser i rannu eu profiadau, eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth. Cafodd yr holl weithwyr llawrydd a gymerodd ran gynnig tâl am eu hamser. Mae eu gwaith wedi bod yn amhrisiadwy o ran cynhyrchu canfyddiadau ac argymhellion.

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) a'i gynnal ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.